

Ali Sparkes

Adnoddau Addysg

# TROELLI'N ôl drwy amser…

Fel llawer o awduron, mae Ali Sparkes yn credu bod ei phrofiadau yn ystod plentyndod wedi creu'r awdur y mae heddiw. Mae hefyd yn cyfaddef ei bod yn defnyddio ei gorffennol i greu storïau heddiw.

Pe gallech chi fynd â'ch hun yn ôl drwy amser *troellog* i ailymweld â digwyddiad penodol yn eich bywyd, sut byddech chi'n ysgrifennu amdano?

Gallai fod yn amser pan wnaethoch ennill medal ar ddiwrnod mabolgampau neu'r diwrnod y cawsoch chi gi bach newydd... neu efallai pan wnaethoch chi dorri eich coes neu y gwnaeth eich trwyn waedu ar hyd llawr yr ystafell ddosbarth yn yr ysgol fabanod.

Gall y pethau hyn aros yn ein meddyliau am oes.

Dychmygwch eich bod yn gwylio'ch hun yn blentyn ifanc ar yr achlysur penodol hwn ac ysgrifennwch am yr hyn a ddigwyddodd o safbwynt arsylwr (h.y. *trydydd person*). Cofiwch ddisgrifio eich hun yn llawn fel cymeriad, ynghyd â'r bobl o'ch cwmpas. Meddyliwch am yr hyn roeddech chi'n ei wisgo, sut beth oedd y tywydd, pa hwyliau roeddech chi neu bobl eraill ynddynt, beth a ddywedwyd…

**YMCHWIL** – holwch bobl eraill (aelodau o'ch teulu neu ffrindiau neu athrawon hyd yn oed) a oedd yno adeg eich atgof beth maen *nhw'n* ei gofio amdano. Efallai y cewch eich synnu gan y ffordd y gwelon *nhw* eich atgof ar y pryd. Efallai y gallech chi ailysgrifennu eich atgof o'u safbwynt *nhw* hyd yn oed.




Ali Sparkes, 5 oed

## LOL AG ODLAU

Yn ***Dark Summer***, y gwnaeth Ali ddarllen yn uchel ohono, roedd gan y cymeriad Eddie ffordd o ymdopi â straen. Roedd wrth ei fodd yn chwarae â geiriau drwy wneud cerddi gwirion neu newid y geiriau i ganeuon i'w gwneud yn ddoniol a/neu braidd yn anweddus.

Dewiswch gân enwog (mae'n helpu os yw'r rhan fwyaf o bobl yn ei hadnabod) a chwaraewch â'r geiriau i greu eich fersiwn eich hun ohoni.

Er enghraifft… dyma fersiwn Eddie o ***I Will Survive*** gan Gloria Gaynor (chwiliwch amdani a gwrandewch arni):



*First I was afraid*

*I was mummified*

*Kept feeling like I was all bandaged*

*Down my right hand side*

*But then I spent so many nights*

*Remembering you look like King Kong… and I grew strong…*

*'Cause girls with that much hair are wrong…*

Sylwch fel mae'r geiriau'n odli ac yn debyg iawn i'r geiriau gwreiddiol (gallwch chwilio am y rhain hefyd!) – ond, yn bwysig, sylwch fel mae rhythm y geiriau gwahanol yn ffitio'n union.

Os gallwch feistroli odl a rhythm, mae'n gwneud i'ch cân amgen weithio'n well o lawer – a swnio'n fwy doniol o lawer!




**HER DOSBARTH** – dewiswch dair cân enwog i bawb weithio arnynt mewn timau (mae'n helpu i'w chwarae ar ddechrau'r wers ac argraffu'r geiriau).

Yna, gosodwch thema ar gyfer y gân newydd... gallai fod yn FFRWYTHAU A LLYSIAU neu CŴN neu HOFF FYRBRYDAU... a gweld beth fydd pawb yn ei wneud. Bydd pwyntiau'n cael eu rhoi am:

1. Odli
2. Rhythm
3. Comedi


Pob lwc!


# GWNEUD HYSBYSLUN

Llyfr ***Dark Summer*** Ali Sparkes oedd un o'r cyntaf i'w gynnwys mewn hysbyslun ar ei gwefan (gallwch weld pob un ohonynt yn **www.alisparkes.com/trailers.asp**). Erbyn hyn, mae llawer o awduron yn creu hysbysluniau ar gyfer eu llyfrau.

**GWNEWCH EICH HYSBYSLUN EICH HUN** ar gyfer llyfr rydych chi'n ei fwynhau. Gallwch ddefnyddio ffilmio byw neu animeiddio stop-symud – neu bypedau hyd yn oed. Nid oes rhaid i chi wneud llawer er mwyn iddo weithio – mae ffôn symudol yn iawn ar gyfer ffilmio. Gall fod yn dri deg eiliad o hyd – neu funud hyd yn oed.

**CRËWCH FWRDD STORI** ar gyfer eich hysbyslun yn gyntaf… gosodwch y stori fesul golygfa, fel stribed comig. Dyma'r byrddau stori y gwnaeth Ali eu llunio ar gyfer ***Destination Earth*** a ***Thunderstruck***:




Os edrychwch ar yr hysbysluniau, byddwch yn sylwi nad yw popeth yn union yr un fath â'r bwrdd stori. Mae'n rhaid i chi fod yn hyblyg wedi i chi ddechrau ffilmio.

Nid oes rhaid i chi ychwanegu graffigwaith – gallwch ychwanegu geiriau wrth ffilmio gan ddefnyddio papur a phin ysgrifennu – fel isdeitlau byw. I weld enghraifft o hyn, edrychwch ar hysbyslun ***Death By Detention*** yn **www.alisparkes.com/deathbydetention**.

Os ydych yn falch o'r hyn rydych wedi'i wneud, rhowch wybod i'r awdur (gan dybio ei fod/bod yn fyw!). Bydd WRTH EI FODD/BODD!

**MWYNHEWCH!**



# YR AMSER, Y LLE, Y STORI…

Cafodd Ali ei hysbrydoli gan yr ogofâu yn Wookey Hole yng Ngwlad yr Haf – a chanlyniad hyn oedd ***Dark Summer***, lle mae'r prif ddigwyddiadau'n digwydd ymhell o dan y ddaear.

Mae Ali'n cofio 'Es i yno pan roeddwn yn blentyn ac roeddwn wrth fy modd â'r ogofâu!' 'Es i'n ôl pan roeddwn yn fy arddegau... ac ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, es i â'm plant yno. Dwi wrth fy modd ag ogofâu – rydw i wir eisiau ymweld â rhai o'r ogofâu yng Nghymru, fel Dan Yr Ogof.

'Trwy ddarllen y canllaw ar ogofâu Wookey Hole, dysgais fod llawer o ogofâu na fydd bodau dynol byth yn dod o hyd iddynt. Dechreuais feddwl am beth allai fod yno, ychydig y tu hwnt i'n cyrraedd, a dyna a ysbrydolodd *Dark Summer*.'

Pa le ydych chi wedi ymweld ag ef a wnaeth eich syfrdanu? A allai fod yn lleoliad ar gyfer eich stori? Gall lleoliadau go iawn ychwanegu realaeth at eich stori, ond mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr fod eich ffeithiau'n gywir. Ymchwiliwch i'r ffeithiau am y lleoliad rydych wedi'i ddewis... yna lluniwch bopeth arall.

Gall fod yn stori gyfredol neu wedi'i gosod yn y dyfodol – neu yn y gorffennol, gan ddefnyddio hanes y lleoliad fel man cychwyn. Darganfyddwch beth oedd yn arfer bod yno gan mlynedd yn ôl neu fwy…




Mwynhewch!



